



Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Crynodeb o ganfyddiadau o'n hadolygiadau thematig

2012



**BUDDSODDWR
MEWN POBL**

Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALLau);
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- ▲ hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ▲ ALLau;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd;
- ▲ dysgu troseddwy; ac
- ▲ elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2009: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Rhagair

Mae gan Estyn rôl allweddol i'w chwarae yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth sy'n tanategu polisi ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae'r Gweinidog Addysg yn anfon 'llythyr cylch gwaith' at Estyn i gomisiynu cyngor ar amrywiaeth o bynciau neu themâu sy'n gysylltiedig â darparu addysg a hyfforddiant. I ymateb i hynny, mae Estyn yn llunio cyfres o adroddiadau.

Yn fy adroddiad blynyddol, rwy'n tynnu sylw at y negeseuon allweddol o'r adroddiadau thematig hyn. Fodd bynnag, yn y cyhoeddiad hwn, rwy'n gobeithio gwneud mwy na hynny trwy ddwyn ynghyd y dadansoddi manwl a'r argymhellion o bob adroddiad er hwylustod cyfeirio. Fel hyn, gobeithiaf y gall ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, colegau AB a darparwyr eraill ddefnyddio'r wybodaeth i wella'u harfer ac i wella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion o'r holl adroddiadau cylch gwaith a gyhoeddwyd hyd yn hyn eleni yn ymddangos yn y cyhoeddiad hwn.

Canllaw cyflym a throsolwg yw'r cyhoeddiad hwn. Mae'r adroddiadau llawn, gan gynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiadau-thematig/adroddiadau-diweddar/>

Gobeithio y cewch y crynodeb hwn a'r adroddiadau manwl o gymorth i ysgogi trafodaeth ac ategu eich cynllunio eich hun ar gyfer addysgu a dysgu ar draws Cymru.

Ann Keane

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion – Ionawr 2012	1
Medrau ar gyfer dysgwyr hŷn: Effaith dysgu oedolion yn y gymuned ar les dysgwyr hŷn – Ionawr 2012	4
Addysg gorfforol mewn ysgolion uwchradd – Chwefror 2012	6
Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion? – Mai 2012	10
Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwr mewn dysgu ôl-16 oed – Adroddiad interim – Mai 2012	13
Y Fframwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3 – Arfarniad o effaith y fframwaith Medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3 – Mai 2012	14
Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion – Mai 2012	18
Pa mor dda y caiff Setiau Data Craidd Cymru Gyfan eu defnyddio i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella? – Mehefin 2012	22
Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 – Mehefin 2012	24
Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd – Mehefin 2012	27
Darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd – Canllaw arfer dda – Gorffennaf 2012	30

**Teitl: Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad
disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion – Ionawr 2012**

Argymhellion

Dylai awdurdodau lleol:

- A1 osod safonau clir ar gyfer defnyddio ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol gan UC'Dau ac ar gyfer cadw cofnodion a sicrhau bod rheolwyr llinell, pwyllgorau rheoli ac aelodau etholedig yn gallu monitro'r rhain yn effeithiol;
- A2 gwneud yn siŵr bod adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio'r adolygiad o bolisïau'r awdurdod lleol ar gyfer lles a diogelu disgyblion;
- A3 dwyn athrawon sydd â gofal i gyfrif yn effeithiol, trwy ddefnyddio trefniadau adrodd sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, ac arfarnu'r strategaethau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ymddygiad heriol;
- A4 sicrhau bod swyddog diogelu gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol yn cefnogi cyfraniad yr UC'D i adolygiadau achos disgyblion ac yn monitro cynnydd pob achos sy'n cael ei gyfeirio at wasanaethau cymdeithasol; a
- A5 gwneud yn siŵr bod pwyllgorau rheoli yn monitro pa mor dda y mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu ynglŷn ag ymddygiad eu plentyn a'r ffordd y mae staff yn ei reoli, a sicrhau bod yr UC'D yn cofnodi, adrodd ac yn ymdrin yn briodol â phob cwyn gan rieni, gofalwyr a disgyblion.

Dylai unedau cyfeirio disgyblion (UC'Dau):

- A6 adolygu eu polisïau yn rheolaidd, a'u halinio ag arweiniad Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol;
- A7 cyflwyno gwybodaeth yn glir i staff yn eu polisïau a'u harweiniad ysgrifenedig;
- A8 cyflwyno hyfforddiant i bob un o'r staff mewn rheoli ymddygiad, ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol sy'n adlewyrchu arfer orau;
- A9 cofnodi digwyddiadau i gael manylion am yr hyn a ddigwyddodd yn gywir ac yn llawn o safbwynt pob un o'r staff a'r disgyblion dan sylw, ac unrhyw staff a oedd yn dyst i'r digwyddiad;
- A10 rhoi'r wybodaeth orau i bwyllgorau rheoli am les disgyblion, diogelu a dadansoddi digwyddiadau i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli yn llawn;

- A11 defnyddio asesiadau risg i wella'r ffordd y caiff ymddygiad disgyblion ei reoli, a rheoli gweithgareddau oddi ar y safle;
- A12 gwella trefniadau ffeilio a diweddarau gwybodaeth a chofnodion fel y gellir eu defnyddio yn effeithiol i ddiogelu disgyblion; a
- A13 sicrhau bod strategaethau rheoli ymddygiad yn cydymffurfio ag arfer orau ac yn defnyddio 'seibiant', i gefnogi disgyblion, wrth eu herio i wella eu hymddygiad eu hunain.

Prif ganfyddiadau

Rheoli ymddygiad

- 1 Mae staff addysgu a staff cymorth mewn UC'Dau yn gwneud gwaith anodd gyda disgyblion y mae eu hymddygiad yn heriol. Mae llawer ohonynt yn ei wneud yn dda. Yn gyffredinol, mae UC'Dau wedi rhoi polisi'au priodol ar waith i'w helpu yn eu gwaith gyda disgyblion bregus, y mae ymddygiad llawer ohonynt yn heriol. Fodd bynnag, nid yw pob polisi yn cynnwys digon o arweiniad defnyddiol ar gyfer staff, ac yn achos amddiffyn plant, nid ydynt bob amser yn amlinellu gweithdrefnau clir nac yn rhoi'r manylion cyswllt sydd eu hangen ar gyfer cyfeirio.
- 2 Mae chwe UC'Dau wedi mabwysiadu strategaethau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau ataliol y mae Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain¹ (BILD) yn eu hachredu. Mae staff yn yr UC'Dau hyn wedi'u hyfforddi'n dda ac maent yn defnyddio'r technegau hyn i dawelu sefyllfaoedd posibl o wrthdaro yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw un UC'D wedi darparu'r hyfforddiant pwysig hwn ar gyfer ei staff, sy'n golygu bod disgyblion a staff yn agored i niwed petai digwyddiad o'r fath yn codi.
- 3 Yn yr arfer orau, mae staff UC'D yn addysgu disgyblion ynglŷn â sut i reoli eu hymddygiad eu hunain ac maent yn defnyddio cynlluniau rheoli ymddygiad ac asesiadau risg disgyblion unigol i'w helpu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw systemau cynllunio disgyblion UC'D yn mynd i'r afael â rheoli ymddygiad anodd gyda disgyblion unigol yn ddigon da. Yn aml, nid ydynt yn defnyddio asesiadau risg disgyblion unigol nac asesiadau risg oddi ar y safle yn ddigon da i ddiogelu disgyblion a staff yn ddigonol. Nid yw UC'Dau yn gwneud digon i fonitro ac arfarnu effaith eu harfer o ddydd i ddydd ar les ac ymddygiad disgyblion drostynt eu hunain.
- 4 Mae pob UC'D yn defnyddio rhyw fath o 'seibiant', fel rhan o'u strategaeth rheoli ymddygiad. Weithiau, mae disgyblion eu hunain yn gofyn am hyn; ar adegau eraill, mae staff yn gofyn i ddisgybl wneud hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw UC'Dau yn defnyddio manau dynodedig ar gyfer 'seibiant' sy'n diogelu neu'n hyrwyddo

¹ Lansiodd y BILD ei gynllun achredu ymyriadau corfforol yn Ebrill 2002, ac fe'i diwygiodd yn ddiweddarach yn 2010. Mae BILD wedi cyhoeddi cod ymarfer ac arweiniad ar gyfer pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Mae'r arweiniad hwn yn gosod safonau ar gyfer arfer broffesiynol, ac ar gyfer hyfforddi a datblygu staff proffesiynol. Mae'r cod ymarfer a'r safonau hyn yn cynrychioli arfer orau mewn strategaethau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol a dulliau atal ar hyn o bryd.

urddas y disgybl. Mae adroddiadau am ddigwyddiadau yn dangos bod 'seibiant' yn aml yn gysylltiedig ag ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol. Mewn rhai achosion, mae disgyblion yn dehongli 'seibiant' fel cosb yn hytrach na fel cyfle i ymdawelu ac adennill rheolaeth.

Lles disgyblion

- 5 Mae pob UCD yn cadw ffeiliau disgyblion, sy'n cynnwys ystod o wybodaeth bersonol. Fodd bynnag, mae ansawdd y cofnodion hyn, y wybodaeth y maent yn ei chynnwys, a'r ffordd y caiff cofnodion eu rheoli yn wael ar y cyfan. Mae'r ffordd y caiff cofnodion eu cadw yn anfoddfaol ar y cyfan. Pan fydd staff yn gwneud cyfeiriadau amddiffyn plant i wasanaethau cymdeithasol, nid ydynt bob amser yn eu cofnodi'n briodol. Ni all UCDau felly ddefnyddio eu cofnodion i roi cymorth rheolaidd i'r cynllunio effeithiol ar gyfer cefnogi a rheoli disgyblion. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw swyddogion diogelu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gwneud digon i herio neu gefnogi UCDau i wella eu harfer yn y maes hwn.
- 6 Mae holl staff UCDau yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu ar haen un, ac mae staff dynodedig sydd â chyfrifoldebau diogelu yn ymgymryd â hyfforddiant mwy arbenigol. Fodd bynnag, nid oes gan bob awdurdod lleol systemau effeithiol i olrhain pa aelodau o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.
- 7 Yn gyffredinol, dywedodd disgyblion eu bod yn teimlo bod staff yn yr UCDau yn eu gwerthfawrogi ac yn gwrando arnynt. Dywedon nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal a'u trin â pharch. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, fe wnaethant hefyd ddweud bod gwrthod mynd yn wirfoddol i gornel 'seibiant' yn achosi i staff fynd â nhw yno yn gorfforol a thrwy rym. Fe wnaethant ddweud hefyd fod eu hamharoddrwydd i fynd i gael 'seibiant' yn digwydd yn aml oherwydd yr amgylchedd gwael yn y gornel 'seibiant'. Yn rhy aml, mae disgyblion yn gweld 'seibiant' fel cosb yn hytrach na chyfle i ymdawelu a rheoli eu hemosiynau yn well.
- 8 Nid yw cwynion gan rieni neu ddisgyblion yn erbyn staff yn dilyn ataliadau yn cael eu cofnodi, eu hadrodd na'u hymchwilio mewn modd amserol bob amser, ac nid yw'r deilliannau'n cael eu cofnodi'n gywir ychwaith.

Awdurdodau lleol

- 9 Canolfannau arhosiad byr yw unedau cyfeirio disgyblion sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion bregus a heriol, ac wedyn fe gânt eu hailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd. Yn wahanol i ysgolion, sydd â'u cyrff llywodraethol eu hunain, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb uniongyrchol am ddarparu a rheoli UCDau. Maent yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn trwy reolaeth linell uniongyrchol a phenodi pwyllgorau rheoli.
- 10 Nid yw trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer llywodraethu a rheolaeth linell dros UCDau yn ddigon trylwyr. Nid yw rheolwyr llinell a phwyllgorau rheoli yn gwneud digon i ddwyn athrawon sydd â gofal i gyfrif am redeg yr UCD o ddydd i ddydd. Nid yw trefniadau adrodd yn canolbwyntio digon ar les disgyblion ac ar helpu UCDau i arfarnu eu strategaethau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ymddygiad heriol.

- 11 Mae pob un o'r awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt wedi cyhoeddi ystod briodol o bolisiau ac arweiniad ar gyfer diogelu disgyblion, ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion ac ar gyfer defnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol mewn ysgolion ac UC Dau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r arweiniad hwn yn glir ac yn hyrwyddo'r dull ar gyfer ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol sy'n cael ei ffafrio gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn helpu UC Dau i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol yn unol â safonau cytûn. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol yn dilyn eu cyngor eu hunain wrth helpu UC Dau i fonitro ac arfarnu'r ffordd y defnyddir strategaethau rheoli ymddygiad bob amser. Nid ydynt yn mynd ati'n ddigon da i nodi effaith y strategaethau hyn ar les disgyblion neu staff nac ar wella arfer rheoli ymddygiad mewn UC Dau trwy hyfforddiant wedi'i dargedu'n well. Mae'r diffyg arfarnu ac adrodd hwn yn ei gwneud yn anodd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion addysg gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer diogelu disgyblion a phlant bregus yn briodol.

Teitl: Medrau ar gyfer dysgwyr hŷn: Effaith dysgu oedolion yn y gymuned ar les dysgwyr hŷn – Ionawr 2012

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 fonitro gweithredu'r polisi cyflenwi dysgu cymunedol i wella cydweithio ar draws yr adrannau, cyfarwyddiaethau a'r canghennau sy'n gyfrifol am bobl hŷn; a
- A2 chasglu data ynghylch cyfleoedd dysgu yn y Monitor Pobl Hŷn, fel ei fod yn monitro lles trwy ddysgu yn ogystal â chael gwaith.

Dylai'r Adran Addysgu a Sgiliau:

- A3 gydweithio ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru i gronni pob cyllideb sydd â'r nod o gefnogi dysgu gydol oes a lles pobl hŷn;
- A4 cytuno ar ddangosyddion perfformiad neu fesurau deilliant i bartneriaethau DOG fonitro eu gwaith gyda phobl hŷn a'u cynorthwyo i fyw'n annibynnol; ac
- A5 annog a chynorthwyo partneriaethau DOG i gynorthwyo pobl hŷn i drefnu a rheoli eu dysgu eu hunain.

Dylai partneriaethau DOG:

- A6 gynyddu hyblygrwydd mewn dulliau cyflwyno, yn newisiadau'r cwricwlwm, hyd sesiynau a'r dulliau asesu ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig y rhai dros 70 oed.

Dylai awdurdodau lleol:

A7 sicrhau bod byrddau gwasanaeth lleol yn gwella eu defnydd o arbenigedd partneriaethau DOG mewn cyflwyno dysgu gydol oes a gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer pobl hŷn.

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae'r rhaglenni dysgu ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn canolbwyntio ar wella cymwysterau a lefelau medrau. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu llawer o bobl i wella eu rhagolygon gwaith ac i ddod o hyd i gyflogaeth. Mae rhai enghreifftiau lle mae darparwyr mewn partneriaeth DOG yn gweithio'n dda i gytuno ar drefniadau ar y cyd i gynnig lefelau da o gymorth i ddysgwyr sy'n dysgu mewn canolfannau cymunedol ac allgymorth lleol.
- 2 Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn magu hunan-barch a hyder trwy ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen i lefelau dysgu uwch. Hefyd, mae llawer ohonynt yn ymestyn eu dealltwriaeth o bynciau nad ydynt wedi'u hastudio'n flaenorol. Mae eraill yn parhau i gyfrannu at weithgareddau teuluol a chymunedol gan ddefnyddio'r medrau y maent wedi'u dysgu.
- 3 Mae dysgwyr hŷn sy'n chwilio am waith o hyd ac yn dymuno gwella eu cymwysterau yn dangos brwdfrydedd ac ymroddiad wrth ailymuno â byd dysgu. Cânt eu cynorthwyo'n dda gan ychydig o bartneriaethau DOG, lle mae dulliau cynllunio medrus ac ystyriol yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr hŷn. Hyd yn oed pan fo'r cymorth yn dda yn gyffredinol, nid yw gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd cydlynol yn cael eu defnyddio digon.
- 4 Wedi i bobl hŷn fynd heibio i'r oedran pan fyddant yn chwilio am waith, mae eu cysylltiad â rhaglenni cymunedol lleol yn lleihau'n gyflym. Y rheswm am hyn yw bod y cwricwlwm a'r meysydd pwnc sy'n cael eu cynnig yn ymwneud ag ennill cymwysterau bron bob tro, ac nid oes ar y dysgwyr llawer hŷn hyn eu heisiau na'u hangen.
- 5 Mae dadansoddi tueddiadau sy'n deillio o graffu ar gofnodion ymrestru tua 13,000 o ddysgwyr hŷn yn dangos bod pobl y tu hwnt i oedran gweithio eisiau parhau i ymrestru ar gyrsiau a dosbarthiadau sy'n eu helpu i gadw'n iach ac i gadw i fyny â'u diddordebau. Fodd bynnag, mae ymrestrïadau'n gostwng yn sylweddol yn y grŵp oedran dros 70.
- 6 Roedd cyfweiliadau gyda phobl hŷn yn amlygu fel mae colli hyder a chysylltiadau â'r gymuned leol yn cael effaith negyddol gyflym ar eu lles. Mae pobl hŷn yn cydnabod y gall yr ysgogiad y mae dysgu ei roi i'w bywydau eu helpu i gadw'n weithgar ac yn annibynnol.
- 7 Nid yw llawer o bartneriaethau DOG yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer sbectrwm eang dysgu pobl hŷn. Nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o'r cyllid sydd ar gael i gynnig cwricwlwm hyblyg sy'n bodloni anghenion a dyheadau dysgwyr hŷn.

- 8 Nid oes gan adrannau Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol strategaeth glir i fodloni anghenion y boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio yng Nghymru. Nid ydynt yn cyfuno adnoddau sydd wedi'u hanelu at bobl hŷn er mwyn datblygu cynlluniau sydd wedi'u hystyried yn dda ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol.
- 9 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod tystiolaeth feintiol gref fod cyfranogi mewn dysgu yn ddiweddarach mewn bywyd yn atgyfnerthu annibyniaeth a gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain, a gall hefyd arafu datblygiad demensia, sydd felly'n gohirio'r angen am ofal preswyl drud. Fodd bynnag, nid oes cysylltiadau digon da yn cael eu gwneud rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo lles mewn henaint. Hefyd, mae sail ddyngarol gref dros sicrhau bod darpariaeth ar gael i bobl hŷn a fydd yn cefnogi Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, sef y dylai'r wladwriaeth gefnogi eu hannibyniaeth, eu cyfranogiad, eu gofal, eu hunangyflawniad a'u hurddas.

Teitl: Addysg gorfforol mewn ysgolion uwchradd – Chwefror 2012

Argymhellion

I wella safonau addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4:

Dylai adrannau addysg gorfforol:

- A1 wneud yn siŵr bod gwersi yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion gadw'n gorfforol egnïol ac ymgymryd â gweithgarwch corfforol cynaliadwy;
- A2 datblygu medrau ehangach disgyblion, yn cynnwys medrau cyfathrebu, rhifedd, meddwl, arweinyddiaeth a medrau arfarnol, heb amharu ar ddatblygiad medrau sy'n benodol i bwnc;
- A3 cynnig gweithgareddau dysgu a fydd yn galluogi disgyblion o bob gallu i wneud cynnydd, ac yn benodol, cynnig her addas i ddisgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 3;
- A4 datblygu rhaglenni gweithgareddau anturus difyr, sy'n briodol o heriol, yng nghyfnod allweddol 3;
- A5 datblygu trefniadau systematig ar gyfer asesu, gosod targedau ac olrhain ar gyfer rhaglenni yng nghyfnod allweddol 3, a rhaglenni heb arholiadau yng nghyfnod allweddol 4; a
- A6 chryfhau trefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

Dylai awdurdodau lleol:

- A7 wella'r cymorth a'r cyngor ar gyfer ymarferwyr addysg gorfforol a hyrwyddo arfer orau;

A8 defnyddio menter 5x60 i hyrwyddo cysylltiadau mwy effeithiol gyda chlybiau a sefydliadau lleol i hyrwyddo ffordd iach o fyw a chyfranogiad gydol oes mewn chwaraeon a hamdden gorfforol; a

A9 sicrhau cywirdeb a chysondeb gwell wrth farnu lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A10 ystyried y ffordd orau o gynnal arfer ac effaith dda AGChY a mentrau 5x60.

Prif ganfyddiadau

- 1 Er 2001, mae canran y disgyblion cyfnod allweddol 3 sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu'n uwch yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi cynyddu'n gyson mewn addysg gorfforol. Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn cyd-fynd yn fras â phynciau eraill. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch (lefel 6 neu'n uwch) yn llai nag ar gyfer y rhan fwyaf o'r pynciau eraill nad ydynt yn rhai craidd.
- 2 Yn 2011, 73% oedd canran y disgyblion yng Nghymru sy'n cofrestru ar gyfer addysg gorfforol TGAU sy'n cyflawni graddau A*-C, sef dau bwynt canran uwchlaw'r ffigur ar gyfer y DU, a gwelliant o 70% yn 2010. Llwyddodd tua chwarter o'r disgyblion a gofrestrwyd i gyflawni'r graddau uwch A*/A.
- 3 Yn 2011, roedd tua dau o bob tri o'r disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer addysg gorfforol mewn TGAU yn fechgyn. Mae hyn yn gyfran uwch nag ar gyfer bron unrhyw bwnc arall. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn yn llai nag ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau eraill.
- 4 Roedd safonau'n dda neu'n well mewn tua dwy o bob tair o'r gwersi a arsylwyd ar gyfer yr arolwg hwn a mwy neu lai'n debyg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn galw i gof eu dysgu blaenorol yn dda, ac yn deall cysyniadau allweddol. Maent yn gwneud cynnydd da o ran datblygu a mireinio eu medrau pwnc penodol ac mewn caffael medrau ehangach.
- 5 Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn gwneud y cynnydd gorau mewn gweithgareddau creadigol a chystadleuol. Yn y meysydd hyn, mae'r nodweddion rhagorol mwyaf cyffredin yng ngallu disgyblion i:
 - greu dilyniannau gwreiddiol ac o ansawdd uchel gyda llif arbennig o dda a gweithrediad technegol cywir; a
 - chyflawni medrau penodol gyda llawer o gywirdeb, effeithlonrwydd a rheolaeth dechnegol.
- 6 Mae disgyblion hefyd yn gwneud cynnydd da mewn gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles, ond mae eu cynnydd mewn gweithgareddau athletig ac anturus yn llai sicr.

- 7 Yng nghyfnod allweddol 4, mewn dosbarthiadau TGAU yn bennaf, mae nodweddion rhagorol yng ngallu disgyblion i gynllunio, perfformio ac arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.
- 8 Mewn tua thraean o'r gwersi a arsylwyd, mae diffygion yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Yn benodol, nid yw disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 3 yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gellid ei ddisgwyl. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, dyma'r diffygion mwyaf cyffredin yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion:
- cydlyniad a rheolaeth wael o ran eu symudiadau a'u gweithredoedd;
 - anawsterau yn trosglwyddo medrau yn llwyddiannus o ymarfer i sefyllfaoedd gêm; a
 - diffyg hyder yn datblygu syniadau neu atebion i broblemau.
- 9 Gall addysg gorfforol wneud cyfraniad allweddol i ddatblygu medrau cyfathrebu a meddwl disgyblion. Mewn dros chwarter o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn datblygu'r medrau hyn.
- 10 Mae'r addysgu'n dda neu'n well mewn tua thri chwarter o'r gwersi a arsylwyd. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sydd:
- yn cadw disgyblion yn gorfforol egniol ac yn galluogi iddynt gystadlu ar lefel briodol;
 - yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn helpu disgyblion i symud ymlaen ar y cyflymder cywir; ac
 - yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o egwyddorion, terminoleg a thechneg allweddol.
- 11 Mewn ychydig o wersi, lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu yn ystyriol i herio disgyblion ac ennyn eu diddordeb. Yn y gwersi hyn, mae gweithgareddau dysgu yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion fyfyrion ar eu gwaith, ei arfarnu a'i wella, ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall pob disgybl ei gyflawni, yn cynnwys y rhai mwy abl.
- 12 Yn y mwyafrif o wersi, rhoddir pwyslais ar ddatblygu medrau cyfathrebu a meddwl disgyblion. Mae hyn yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ymgorffori'n naturiol ym mhob gweithgaredd dysgu ac nid yw'n amharu ar ddatblygiad medrau pwnc penodol disgyblion. Yn gyffredinol, rhoddir llai o bwyslais ar ddatblygu medrau rhifedd neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion.
- 13 Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i wneud yn siŵr bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd. Yn y gwersi hyn, nid yw gweithgareddau dysgu yn cadw disgyblion yn gorfforol egniol, ac nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol a chymryd rolau arweinyddiaeth, datblygu eu medrau ehangach nac adolygu ac arfarnu eu gwaith a'u cynnydd.
- 14 Mewn tua hanner o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid yw athrawon yn sicrhau eu bod yn ennyn diddordeb disgyblion nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn weithredol mewn gwersi, er enghraifft, trwy gyflawni rolau fel swyddogion neu drwy hyfforddi eu cyfoedion.

- 15 Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid yw'r trefniadau ar gyfer asesu, gosod targedau ac olrhain yn ddigon systematig na thrylwyr yng nghyfnod allweddol 3. Nid yw llawer o athrawon yn ddigon hyderus ynglŷn â chywirdeb a chysondeb lefelu yng nghyfnod allweddol 3, yn enwedig wrth ddyfarnu lefelau uwch i ddisgyblion mwy abl. Mae'r trefniadau ar gyfer asesu a monitro cynnydd disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n dilyn rhaglenni heb arholiadau hefyd yn wan. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r trefniadau ar gyfer asesu, gosod targedau ac olrhain i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau arholi yn briodol.
- 16 Mae'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (AGChY) wedi cael effaith sylweddol ar wella ansawdd yr addysgu a chodi safonau, yn enwedig wrth ysgogi gweithgareddau creadigol ac anturus mewn llawer o ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae'r fenter wedi cael llai o effaith ar safonau yng nghyfnod allweddol 3. Prin yw'r ysgolion uwchradd sy'n cael gwybodaeth fanwl gan ysgolion cynradd partner am alluoedd disgyblion mewn addysg gorfforol.
- 17 Yn gyffredinol, mae ysgolion yn neilltuo cyfran fwy o amser yng nghyfnod allweddol 3 ar gyfer gweithgareddau cystadleuol na meysydd gweithgarwch eraill. Mae hyn yn arbennig o wir am fechgyn. Fodd bynnag, mae ysgolion yn cynyddu'r pwyslais ar weithgareddau creadigol ac anturus a gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles, ac mae hyn wedi helpu ennyn diddordeb merched yn fwy llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda. Mae gan rai ysgolion drefniadau trawsgwricwlaidd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ffyrdd iach o fyw. Fodd bynnag, prin yw'r ysgolion sy'n cydlynu'r gwaith hwn yn ddigon systematig ar draws meysydd pwnc.
- 18 Mae mwyafrif yr ysgolion yn datblygu eu cyrsiau gweithgareddau anturus yng nghyfnod allweddol 3 yn dda, ond nid yw lleiafrif wedi datblygu rhaglenni sy'n ddigon difyr na heriol.
- 19 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion. Mae'r fenter 5x60 wedi bod yn llwyddiannus yn ychwanegu at y rhaglenni mwy traddodiadol, mewn tîm yn bennaf, yr oedd y rhan fwyaf o ysgolion yn eu cynnig yn y gorffennol. Mae gweithgareddau newydd fel aerobeg, dawnasio stryd, pilates, swmba a bocsiio gydag ymarfer aerobeg (boxercise) wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau cyfranogiad merched. Fodd bynnag, yn rhy aml, ni chafwyd cyswllt digon agos gyda chlybiau a sefydliadau lleol, a allai gynnig cyfle i ddisgyblion brwdfrydig ddatblygu eu diddordebau ar ôl yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol.
- 20 Yn y mwyafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae trefniadau systematig ar waith i fonitro gwaith yr adran addysg gorfforol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, mae diffyg manylion mewn adolygiadau hunanarfarnu ac nid ydynt yn darparu sylfaen dda ar gyfer gwella, yn bennaf am nad yw arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi safonau neu'n monitro addysgu mewn modd digon trylwyr.
- 21 Yn y mwyafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae trefniadau datblygiad proffesiynol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol a rhai adrannol. Lleiafrif yn unig o awdurdodau lleol sy'n rhoi cymorth ymgynghorol da i adrannau addysg gorfforol. Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, mae'r diffyg cymorth ymgynghorol cryf yn cyfyngu cyd-destun y ddeialog broffesiynol, a gall hyn hefyd atal ysgolion rhag arsylwi arfer dda mewn manau eraill.

- 22 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae'r adeiladau, yn cynnwys caeau chwarae a chyfleusterau dan do, yn dda ac yn darparu lleoliad addas ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol. Fodd bynnag, mae diffygion pwysig yn ansawdd yr adeiladau mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, sy'n amharu ar gynnydd disgyblion mewn addysg gorfforol. Mae'r rhain yn cynnwys lle cyfyngedig dan do, campfa ag adnoddau gwael, cyfleusterau newid anaddas, a chaeau chwarae wedi'u draenio'n wael neu sy'n cael eu cynnal yn wael.

Teitl: Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion? – Mai 2012

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 ystyried mabwysiadu dull safonol i'w ddefnyddio ar lefel genedlaethol ar draws pob ysgol er mwyn nodi cost gyfartalog lleoedd dros ben ac ysgolion dros ben;
- A2 hyrwyddo gostwng lleoedd dros ben yn dystiolaeth o reoli adnoddau yn well a'r effaith ar wella ysgolion yn hytrach na fel diben ynddo'i hun;
- A3 gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu a hyrwyddo arfer dda wrth arfarnu effaith cynlluniau ad-drefnu ysgolion;
- A4 gofyn i awdurdodau lleol gynnal asesiadau effaith ar gynlluniau ad-drefnu ysgolion lle defnyddir arian Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gweithredu; a
- A5 gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi'r strategaethau trefnu ysgolion a rheoli asedau hynny sy'n cyfrannu yn y modd mwyaf cadarnhaol at ddeilliannau ar gyfer dysgwyr a hyrwyddo eu defnydd ar draws yr holl gonsortia awdurdodau lleol.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia awdurdodau lleol:

- A6 sicrhau bod arweinwyr strategol yn blaenoriaethu trefnu ysgolion a rheoli asedau, gan ystyried yr effaith ar effeithiolrwydd ysgolion;
- A7 ennyn yr holl aelodau etholedig, swyddogion a phenaethiaid yn yr ymdrech i ryddhau adnoddau er mwyn buddsoddi mewn gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr;
- A8 monitro ac arfarnu'r holl brosiectau ad-drefnu ysgolion yn ofalus er mwyn nodi adnoddau a ryddhawyd a'u heffaith ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr;

- | | |
|-----|--|
| A9 | gwella defnydd swyddogion o'r holl ddata sydd ar gael i ysgogi datblygiadau strategol ac arfarnu eu heffaith, gan ddefnyddio her o drefniadau craffu'r awdurdod; a |
| A10 | chydweithio o fewn y consortia i hyrwyddo arfer dda, yn enwedig mewn perthynas â nodi a gweithredu i fynd i'r afael â thanberfformio. |

Prif ganfyddiadau

- 1 Caiff y cynllunio ar gyfer lleoedd ysgol yng Nghymru ei gymhlethu gan y ffaith fod niferoedd y disgyblion yn gostwng mewn ysgolion uwchradd ond yn codi mewn ysgolion cynradd ar hyn o bryd.
- 2 Pan fydd lefel uwch na'r angen o leoedd ysgol, mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon a gellid eu defnyddio'n well i wella ansawdd yr addysg ar gyfer pob dysgwr. Adroddodd y Comisiwn Archwilio am y mater hwn ym 1996. Daeth i'r casgliad fod awdurdodau lleol yn gwastraffu adnoddau gan fod capasiti dros ben gormodol yn cyfyngu adnoddau refeniw yn hytrach na'i fod yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol mewn addysgu a dysgu. Mae'r broblem a nodwyd gan y Comisiwn Archwilio yn parhau i foddi heddiw.
- 3 Ledled Cymru, nid yw ad-drefnu ysgolion wedi dal i fyny â gostyngiad yn niferoedd disgyblion. Yn 2011, roedd mwy o leoedd heb eu llenwi nag yn 2006 ac nid oes yr un awdurdod lleol wedi cyflawni'r lefel a argymhellir gan Lywodraeth Cymru, sef dim mwy na 10% o leoedd dros ben ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Er y cafwyd gwared ar rai lleoedd dros ben, mae awdurdodau lleol wedi bod yn araf ar y cyfan i nodi a chwblhau prosiectau a fyddai'n arwain at arbedion sylweddol.
- 4 Defnyddiwyd dulliau amrywiol dros gyfnod i arfarnu cost cynnal lleoedd dros ben mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol wedi gwneud digon i asesu effaith ariannol ac addysgol cynlluniau rhesymoli ysgolion blaenorol. Nid yw'r data cyfyngedig sydd ar gael yn darparu digon o wybodaeth am effaith lleoedd dros ben ar bob agwedd ar ddarpariaeth addysgol. Mae'r diffyg dull safonol ar lefel genedlaethol yn creu anawsterau wrth gynnal trafodaeth wybodus am effeithiolrwydd strategaethau neu berfformiad.

Dull safonol i nodi cost lleoedd dros ben

- 5 Mae'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi cyfrif cost lleoedd dros ben wedi gweld y wybodaeth yn ddefnyddiol wrth argyhoeddi cymunedau ysgol a phobl sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r angen i leihau nifer y lleoedd dros ben. Byddai eu gwaith yn cael ei gryfhau gan ddefnydd cenedlaethol o ddull safonol cytûn. Byddai hyn yn cyfrif cyfartaledd ystadegol ar draws y trefniadau cymhleth niferus sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer ariannu ysgolion.
- 6 Mae'r arbedion posibl yn sgil cael gwared ar leoedd dros ben mewn ysgolion presennol yn gymharol fach o gymharu â'r arbedion y gellir eu cyflawni trwy gau ysgol gyfan. Y dull mwyaf effeithiol ar gyfer cyfrif arbedion o'r fath yw nodi cost pob lle gwag ar wahân yn ogystal ag arbedion a fyddai'n deillio o gau ysgol.

- 7 Mae'r dadansoddiadau mwyaf gwybodus yn dangos mai cost gyfartalog lle gwag yn y sector cynradd yng Nghymru yn 2011-2012 yw £260, ond yn ychwanegol, yr arbediad cyfartalog sy'n deillio o gau ysgol yw £63,500. Y ffigurau cyfwerth ar gyfer y sector uwchradd yw £510 fesul lle dros ben a £113,000 fesul ysgol. Felly, bydd cau ysgol gynradd yn cynhyrchu arbedion posibl o £63,500 yn ogystal â £260 ar gyfer pob lle dros ben a ddiddymir. Bydd cau ysgol uwchradd yn cynhyrchu arbedion posibl o £113,000 a £510 ar gyfer pob lle dros ben a ddiddymir.
- 8 Dim ond yr arbedion blynyddol mewn cyllidebau ysgol dirprwyedig y mae'r ffigurau hyn yn eu hadlewyrchu. Bydd unrhyw gynllun rhesymoli ysgolion yn effeithio ar gyllidebau annirprwyedig hefyd. Gall cynlluniau o'r fath gynyddu cost cludiant o'r cartref i'r ysgol, ond maent yn debygol o leihau'r cyllidebau canolog ar gyfer gwella ysgolion, arlwyyo, cynnal a chadw ac eitemau eraill. Yn ychwanegol, bydd cael gwared ar leoedd ysgol a/neu gau ysgol yn achosi costau ar eu pen eu hunain fel gwariant cyfalaf a phe cynnau diswyddo ar gyfer staff nad oes angen eu swyddi mwyach. Mae angen ystyried yr holl gostau hyn cyn i swyddogion awdurdodau lleol allu penderfynu a yw cynllun penodol yn effeithiol.
- 9 Mae Llywodraeth Cymru wedi argymhell na ddylai fod mwy na 10% o leoedd dros ben ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Nid yw'r astudiaeth hon yn cyfeirio at b'un a yw'r ffigur hwn yn cynrychioli uchafswm priodol ai peidio. Fodd bynnag, mae'n afresymol disgwyl i awdurdodau lleol lenwi'r holl gapasiti lleoedd dros ben am fod gan gynghorau ddyletswydd i ddarparu digon o leoedd ysgol ac mae angen iddynt allu rheoli amrywiadau yn y galw o ganlyniad i newid demograffig a dewis rhieni. Mae cynnal lefelau uchel o gapasiti lleoedd dros ben yn cyfyngu adnoddau'n ddiangen, ond ni ddylid defnyddio cyfrifiadau costau lleoedd dros ben yn yr adroddiad hwn yn rhy syml. Gall cael gwared ar leoedd dros ben mewn rhai ysgolion gostio llawer mwy na'r arbedion refeniw a gyflawnir trwy gael gwared arnynt. Mewn achosion eraill, byddai cael gwared ar ysgol 'dros ben' yn cynhyrchu llawer mwy na chael gwared ar y lleoedd dros ben ynddi.
- 10 Yn gryno, rhaid arfarnu'r arbedion sydd ar gael yn sgil ad-drefnu pob ysgol fesul achos.

Lleihau nifer y lleoedd dros ben

- 11 Ar hyn o bryd, mae ystod eang o strategaethau'n cael eu defnyddio ledled Cymru i leihau nifer y lleoedd dros ben. Mae cau ac uno ysgolion yn sicrhau'r arbedion mwyaf ar gyfer ail-fuddsoddi i godi safonau. Fodd bynnag, mae angen buddsoddi ariannol ac ymrwymiad gwleidyddol sylweddol ar gyfer y strategaethau penodol hyn yn aml.
- 12 Dylai unrhyw strategaeth ad-drefnu ysgolion fynd ati i wella safonau. Dylai rhaglenni ad-drefnu ysgolion fod ynglŷn â gwella ysgolion yn bennaf, yn hytrach na bod yn ymarfer rheoli adnoddau sy'n annibynnol ar fuddiannau dysgwyr. Yn 2007, argymhellodd Estyn y dylai awdurdodau lleol nodi'r cyfraniad a wna adeiladau ysgol newydd ac wedi'u hadnewyddu at godi safonau a gwella ysgolion. Byddai hyn yn helpu i lywio'r drafodaeth am gynlluniau yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni wnaed llawer o gynnydd wrth roi'r argymhelliad hwn ar waith. Mae awdurdodau lleol yn cyffredinol i'n rhy aml am fanteision ad-drefnu heb fonitro'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr o'r adnoddau a ryddhawyd.

**Teitl: Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwr
mewn dysgu ôl-16 oed – Adroddiad interim – Mai 2012**

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 adolygu gofynion adroddiad hunanasesu blynyddol y darparwr er mwyn dal deilliannau strategaethau cynnwys y dysgwr yn llawnach;
- A2 adolygu prosiect cynrychiolaeth myfyrwyr addysg bellach Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i asesu ei effaith ar ddysgwyr;
- A3 monitro gweithredu strategaethau cynnwys y dysgwr ar lefel y darparwr;
- A4 gweithredu prosiectau cynrychiolaeth dysgwyr ar draws y sector ôl-16 oed i hyfforddi dysgwyr i weithredu fel eiriolwyr/cynrychiolwyr dysgwyr a sicrhau ymglymiad corff ehangach o ddysgwyr; a
- A5 sefydlu fforymau dysgwyr sector ar lefel genedlaethol er mwyn galluogi dysgwyr i lywio natur a chwmpas eu dysgu.

Dylai darparwyr mewn sectorau ôl-16 oed:

- A6 sefydlu systemau ar gyfer cofnodi ystod y deilliannau sy'n cael eu cyflawni gan ddysgwyr, gan gynnwys y manteision personol a chymdeithasol, o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr;
- A7 gwella'r systemau ar gyfer monitro dysgwyr er mwyn nodi effaith cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr ar ddysgwyr unigol; a
- A8 chefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn rhwydweithiau cynnwys y dysgwr ar lefel leol a chenedlaethol.

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae darparwyr yn y rhan fwyaf o sectorau ôl-16 oed wedi defnyddio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gynnwys y dysgwr yn dda er mwyn galluogi darparwyr i ddatblygu a gweithredu eu strategaeth eu hunain neu i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio yn ôl canllawiau cenedlaethol.
- 2 Mae darparwyr yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys y dysgwr yn y rhan fwyaf o sectorau ôl-16 oed. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau cynrychioli ffurfiol, holiaduron ac arolygon, eiriolwyr dysgwyr ac ymgynghoriadau.

Monitro ac arfarnu deilliannau cynnwys y dysgwr

- 3 Nid yw'r un darparwr yn y sector ôl-16 oed wedi sefydlu systemau i fonitro ac arfarnu manteision cynnwys y dysgwr. Nid yw darparwyr yn cofnodi sut mae'r gweithgareddau hyn yn gwella deilliannau i ddysgwyr. Nid yw'r un darparwr wedi rhoi system ar waith i fonitro ac arfarnu effaith gweithgareddau cynnwys y dysgwr ar lefelau cadw neu ar ddeilliannau i ddysgwyr, nac i olrhain effaith cynnwys y dysgwr ar gyfer dysgwyr unigol. O ganlyniad, nid yw darparwyr yn gwybod pa fanteision neu ddeilliannau gwell y mae dysgwyr wedi'u sicrhau o ganlyniad i'w cynnwys.
- 4 Er hynny, gall y rhan fwyaf o ddarparwyr ôl-16 oed a dysgwyr ddisgrifio manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr. Mae dysgwyr o'r farn eu bod wedi gwella ystod o fedrau sy'n gysylltiedig â'u dewis gweithgaredd dysgu, ynghyd â gwella eu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol. Mae darparwyr o'r farn bod dysgwyr yn gwella'u hyder, yn cael ymdeimlad o berthyn a pherchenogaeth ar eu dysgu, a'u bod yn datblygu dealltwriaeth well o'r prosesau dysgu. Mae dysgwyr hefyd yn adnabod gwerth rhannu eu barn a'u safbwyntiau. Maent yn datblygu medrau cyfathrebu a chyd-drafod, yn dysgu meithrin perthnasoedd a gwella'u gallu i weithio gyda phobl eraill a bod yn flaengar a chreadigol.

Teitl: Y Fframwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3 – Arfarniad o effaith y fframwaith Medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3 – Mai 2012

Argymhellion

Dylai ysgolion uwchradd:

- A1 sicrhau ymdriniaeth briodol a graddol yng nghyfnod allweddol 3 i ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhifedd disgyblion;
- A2 gweithio gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i sicrhau parhad a dilyniant addas wrth ddatblygu medrau generig;
- A3 cydlynu'r dull ar gyfer addysgu medrau cyfathrebu, meddwl, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhifedd yng nghyfnod allweddol 3; a
- A4 datblygu systemau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion mewn datblygu medrau generig i lywio cynllunio yn y dyfodol.

Dylai awdurdodau lleol:

- A5 gefnogi ysgolion i:
- gynllunio cwricwlwm sy'n datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn raddol ar draws pob pwnc yng nghyfnod allweddol 3; ac

- asesu ac olrhain datblygiad medrau generig disgyblion rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, a thrwy gydol cyfnod allweddol 3.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A6 adolygu'r Fframwaith Medrau fel ei fod:

- yn darparu dilyniant clir mewn datblygu medrau generig disgyblion trwy gydol cyfnod allweddol 3;
- yn darparu strwythur symlach y gall ysgolion ei ddefnyddio'n hawdd i gynllunio, asesu ac olrhain cynnydd disgyblion mewn datblygu medrau generig; ac
- yn rhoi enghreifftiau o safonau disgyblion mewn medrau generig ar draws y cwricwlwm i ysgolion; ac

A7 yn adolygu gwerth y Fframwaith Medrau i ysgolion ac ystyried cynnwys datblygu medrau generig disgyblion yng Ngorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol eu hunain.

Prif ganfyddiadau

- 1 Prif effaith y Fframwaith Medrau fu codi ymwybyddiaeth am yr angen i ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig llythrennedd a rhifedd. Nid yw'n dylanwadu'n sylweddol ar gynllunio yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r Fframwaith Medrau wrth gynllunio datblygiad medrau oherwydd:
 - eu bod yn rhoi blaenoriaeth uchel ar wneud yn siŵr bod cynlluniau gwaith yn cyfateb i Orchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol;
 - nid yw'r disgrifiadau o gynnydd mewn medrau a roddir yn y fframwaith yn ddigon manwl, nad oes enghreifftiau ohonynt, a'u bod yn rhy fras i fod o gymorth; ac
 - nid yw defnyddio'r fframwaith yn ofyniad statudol.
- 2 Mae'r ysgolion yn yr arolwg yn defnyddio adnoddau amrywiol i'w helpu i gynllunio datblygiad medrau generig disgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio rhaglenni astudio Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae ysgolion yn eu defnyddio gan eu bod yn fanwl gywir ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer datblygu medrau yn raddol yng nghyfnod allweddol 3 a thu hwnt. Mae'r cyfle i ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn gwella cymhelliant disgyblion hefyd.
- 3 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ystyried mai eu rôl yw datblygu medrau sy'n benodol i bwnc a medrau generig fel ei gilydd. Mae ysgolion yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf ar gynlluniau gwaith sy'n cyfateb i Orchmynion Pwnc diwygiedig y Cwricwlwm Cenedlaethol, y mae pob un o'r rhain yn gofyn i athrawon ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn caffael medrau pwnc a medrau generig penodol. Mae athrawon yn datblygu cynlluniau gwaith o'r Gorchmynion Pwnc ac wedyn yn nodi cyfleoedd o fewn y rhain i ddefnyddio medrau generig.

- 4 Mae mwyafrif o ysgolion yn defnyddio dull cyffredin o addysgu agweddau ar fedrau cyfathrebu, ond megis dechrau datblygu y mae'r rhan fwyaf o'r dulliau hyn. Ychydig iawn o ysgolion sydd â dull cydlynus a chynlluniedig ar gyfer cyflwyno'r ystod gyfan o fedrau generig ar draws y cwricwlwm. Ychydig iawn ohonynt sy'n seilio eu dull ar y Fframwaith Medrau.
- 5 Mae cyfleoedd da i ddatblygu medrau cyfathrebu ar draws pob pwnc yng nghyfnod allweddol 3. Pan fydd athrawon pwnc yn datblygu medrau ysgrifennu'n dda, maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ateb cwestiynau penagored ac yn cynnig her a chymorth priodol iddynt ar ffurf awgrymiadau, fframiau ysgrifennu neu enghreifftiau perthnasol. Maent yn rhannu ac yn rhoi esboniad clir o feini prawf asesu y cytunodd yr ysgol arnynt gyda disgyblion.
- 6 Mae lleiafrif o ysgolion yn datblygu medrau generig disgyblion mewn prosiectau estynedig sy'n archwilio themâu amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon ynddo'i hun yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau generig. Mae'n fwyaf effeithiol lle mae rheolwyr:
 - yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion datblygu disgyblion;
 - yn defnyddio hyn i gynllunio a chydlynu gwaith yn ofalus; ac
 - yn darparu hyfforddiant mewn swydd priodol ar gyfer athrawon.
- 7 Mae gan bron bob ysgol aelod staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer datblygu medrau generig. Mewn tua hanner o ysgolion, mae hyn naill ai'n swydd rheolwr canol yn benodol ar gyfer datblygu medrau neu'n rôl a gyflawnir gan benaethiaid blwyddyn neu arweinwyr adrannau Cymraeg mamiaith, Saesneg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu fathemateg. Mewn ysgolion eraill, mae gan uwch arweinydd gyfrifoldeb am gydlynu datblygiad medrau generig ar draws y cwricwlwm. Mewn ysgolion sy'n gwneud y cynnydd mwyaf o ran datblygu medrau generig disgyblion, mae uwch arweinwyr yn cyfleu athroniaeth ategol yn glir ar gyfer yr angen i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Maent hefyd yn darparu adnoddau a hyfforddiant priodol ar gyfer staff.
- 8 Mae amrywiad sylweddol yn y cymorth a'r arweiniad y mae awdurdodau lleol yn eu rhoi i ysgolion. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn blaenoriaethu'r defnydd o'r Fframwaith Medrau gan ei fod yn anstatudol. Yn hytrach, maent wedi canolbwyntio ar fentrau eraill fel 'Datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' Llywodraeth Cymru.
- 9 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Llywodraeth Cymru 'Datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' yn gwneud defnydd da o'r technegau a amlygir i ddatblygu medrau meddwl ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o'r technegau hyn hefyd yn hyrwyddo medrau darllen ac ysgrifennu yn effeithiol.
- 10 Mae gan lawer o ysgolion rwydweithiau defnyddiol o arfer broffesiynol i wella eu darpariaeth medrau generig. Caiff y rhai mwyaf effeithiol yn eu plith gyfarwyddyd ac arweiniad gan yr awdurdod lleol ac maent yn canolbwyntio ar ddatblygu un medr generig penodol. Mae prosiect Llywodraeth Cymru 'Datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' yn cael mwy o ddylanwad ar y grwpiau hyn na'r Fframwaith Medrau. Mae'n rhy gynnar i'r rhan fwyaf o'r grwpiau hyn fod wedi cael unrhyw effaith ar ddatblygu medrau generig ar draws y cwricwlwm.

- 11 Ychydig iawn o ysgolion sy'n defnyddio'r Fframwaith Medrau ar gyfer eu prosesau monitro. Er hynny, mae mwyafrif o ysgolion yn monitro'r ddarpariaeth ar gyfer medrau generig mewn cynlluniau gwaith ac yn arfarnu safonau disgyblion mewn medrau generig yn ystod arsylwadau gwersi. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn monitro'r modd y mae athrawon yn datblygu medrau generig yn eu gweithdrefnau sicrhau ansawdd.
- 12 Dim ond ychydig ysgolion sy'n gweithio'n agos â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i gynllunio cwricwlwm sy'n adeiladu'n briodol ar fedrau disgyblion pan fyddant yn symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.
- 13 Bron ym mhob ysgol, mae disgyblion yn myfyrio ar eu cynnydd mewn medrau generig ac yn gosod targedau ar gyfer gwella iddyn nhw eu hunain mewn Cymraeg mamiaith, Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion osod targedau iddyn nhw eu hunain i ddatblygu eu medrau cyfathrebu mewn pynciau heblaw Cymraeg neu Saesneg. Nid yw ysgolion yn defnyddio arferion tebyg ar gyfer medrau generig eraill.
- 14 Mae tua hanner o ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion mewn medrau generig, ond ychydig iawn ohonynt sy'n cyfeirio at y Fframwaith Medrau yn y broses hon. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion mewn medrau generig trwy ddeilliannau mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae rhai ysgolion yn defnyddio deilliannau o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.
- 15 Mae systemau olrhain manwl a chymhleth yn creu gormod o faich i athrawon ac nid ydynt yn cynhyrchu targedau defnyddiol ar gyfer gwella mewn medrau generig. Mae systemau olrhain syml yn fwy llwyddiannus o ran cynhyrchu targedau ystyrion ar gyfer gwelliannau mewn safonau medrau generig.
- 16 Caiff disgyblion gyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn tua hanner o ysgolion yn unig. Pan fo hyn yn arfer gyffredin ar draws pob pwnc, mae disgyblion yn teimlo mwy o synnwyr o gymhelliant, yn mwynhau eu gwaith yn fwy, ac yn gwneud cynnydd da ar y cyfan.

Teitl: Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion – Mai 2012

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 ddiwygio gweithrediad y rhaglen grantiau i gymell dilyniant dysgwyr o sesiynau rhagflas i gyrsiau ymgysylltu byr ac i raglenni achrededig hwy wedyn;
- A2 amodi isafswm nifer o oriau ar gyfer sesiynau rhagflas a rhaglenni ymgysylltu byr;
- A3 gofyn i ddarparwyr osod targedau dilyniant, casglu data a mesur deilliannau;
- A4 cyfyngu ar nifer yr adegau y gall dysgwr fynychu sesiynau rhagflas a chysiau ymgysylltu byr er mwyn annog dilyniant;
- A5 diwygio canllawiau'r grant a ffurflenni hawlio i fynnu bod darparwyr dysgu teuluol yn dychwelyd digon o ddata i Lywodraeth Cymru a fydd yn ei galluogi i feincodi deilliannau; a
- A6 diwygio'r canllawiau ar gyfranogwyr sy'n oedolion i alluogi'r rhai y mae eu medrau ar lefel 1 i ymuno â'r rhaglen, lle mae'r ysgol wedi nodi y byddai eu plant yn elwa ar gymorth rhieni.

Dylai awdurdodau lleol:

- A7 weithio gyda phartneriaid eraill i osod targedau recriwtio sy'n canolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf mewn angen;
- A8 dadansoddi data recriwtio er mwyn gosod targedau recriwtio heriol ar gyfer y dyfodol;
- A9 casglu data ar y gyfradd sy'n manteisio ymhlith y plant hynny y nodwyd eu bod yn gymwys;
- A10 monitro cynnydd plant a nodwyd ar gyfer y rhaglenni teuluol ond nad ydynt wedi cymryd rhan, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cwblhau;
- A11 sicrhau bod cynllunio strategol ar y cyd yn gwneud y mwyaf o'r holl adnoddau, yn cynnwys lleoliadau;
- A12 cynnwys rhaglenni teuluol mewn cynlluniau PPPHl; a
- A13 sicrhau ansawdd rhaglenni teuluol ar lefel strategol.

Dylai darparwyr:

- A14 gasglu data dysgwyr yn ôl rhywedd a datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r diffyg yn nifer y dynion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teuluol;
- A15 asesu anghenion dysgwyr yn ffurfiol wrth iddynt ddechrau ar bob cwrs;
- A16 olrhain cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau a defnyddio'r data hwn i gynllunio ar lefel strategol; a
- A17 gosod targedau ar gyfer dilyniant dysgwyr o gyrsiau byr rhagflas/ymgysylltu i raglenni hir.

Prif ganfyddiadau

Recriwtio

- 1 Mae cydlynwyr rhaglenni dysgu teuluol yn defnyddio ystod dda o wybodaeth i nodi ysgolion a fyddai'n elwa ar raglenni dysgu teuluol. Pan fydd ysgol yn derbyn cynnig darpariaeth, maent yn gosod targedau recriwtio priodol ar gyfer y cyrsiau yn yr ysgol honno. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar gydlynwyr yn gosod targedau ar gyfer ysgolion unigol. Nid ydynt yn gosod targed cyffredinol ar gyfer yr awdurdod lleol.
- 2 Mae bron pob darparwr yn marchnata rhaglenni teuluol yn dda ac mae llawer ohonynt yn defnyddio ffyrdd arloesol o darged teuluoedd penodol. Mae'r rhaglenni mwyaf effeithiol yn defnyddio hyrwyddwr o'r ysgol sydd â hygredd gyda'r rhieni, sy'n gwybod amgylchiadau'r teulu ac yn gallu adeiladu perthynas dda gyda nhw.
- 3 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr ac ysgolion yn recriwtio rhieni ar ôl nodi'r plant a fyddai'n elwa o raglenni teuluol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion neu ddarparwyr dysgu teuluol sy'n cofnodi neu'n olrhain plant y nodwyd bod angen cymorth arnynt ond nad ydynt yn cymryd rhan yn y rhaglenni. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am y niferoedd sy'n cymryd rhan nac unrhyw gymorth a gânt, os cânt unrhyw gymorth o gwbl.
- 4 Mae bron pob un o'r cyfranogwyr yn y rhaglenni dysgu teuluol o'r grwpiau targed a nodwyd yn y Rhaglen Grantiau Awdurdodau Lleol ar gyfer y Blynnyddoedd Cynnar. Fodd bynnag, caiff y lefel a nodir ar gyfer rhieni sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni ei gosod yn rhy isel. Mae hyn yn arwain at eithrio rhai plant o'r rhaglenni.
- 5 Mae bron pob un o'r darparwyr yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid fel Cymunedau yn Gyntaf a Gwasanaethau Iechyd. Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau, nid oes cynlluniau strategol wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer rhannu adnoddau, fel canolfannau ieuencid a chanolfannau Dechrau'n Deg, sy'n golygu bod llawer o gyfleoedd yn cael eu colli.
- 6 Mae pob darparwr yn deall y rhwystrau rhag dysgu y mae'r mwyafrif o'r rhieni targed yn eu hwynebu ac maent yn eu helpu i'w goresgyn. Mae rhwystr cyffredin yn deillio o

ofn ysgolion y mae rhieni'n ei wynebu oherwydd eu profiad o fethu yn y gorffennol.

- 7 Ychydig iawn o ddarparwyr dysgu teuluol sy'n casglu data ar lefel rhywedd. Mae hyn yn golygu nad yw llawer ohonynt wedi nodi cyfradd cyfranogiad isel dynion. Yn 2010–2011, dim ond 10% o'r cyfranogwyr ar gyrsiau byr oedd yn ddynion a 6.5% o'r cyfranogwyr ar gyrsiau hir mewn rhaglenni teuluol. Nid oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gynlluniau clir a thargedau ar gyfer eu recriwtio. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn colli cyfleoedd i hyrwyddo modelau rôl sy'n ddynion ar gyfer bechgyn.

Darpariaeth

- 8 Mae bron pob darparwr yn defnyddio modelau cyflwyno effeithiol ar gyfer cyrsiau sy'n para dros 12 awr i gyd. Fodd bynnag, mae modelau cyflwyno ar gyfer cyrsiau byr sy'n para 12 awr a llai yn amrywio gormod rhwng awdurdodau.
- 9 Nid yw ffurflen gais y rhaglen grantiau yn gofyn am ddata ystyrlon am gyfranogwyr cyrsiau a dilyniant dysgwyr ar gyrsiau byr. Nid yw'r ffurflen yn gofyn am y wybodaeth sydd ei hangen i olrhain effaith y rhaglen grantiau neu i gynllunio ar gyfer gwelliannau.
- 10 Mae gormod o ddysgwyr yn aros ar ddarpariaeth cyrsiau byr heb ddilyniant.
- 11 Mae athrawon a darparwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu i gymhell dysgwyr a helpu oedolion i ddeall sut mae eu plant yn dysgu.
- 12 Mae gan bron bob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu mewn dysgu teuluol yn gymwys a phrofiadol iawn.
- 13 Mae bron pob un o'r athrawon dysgu teuluol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion i sefydlu anghenion y plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni. Mae'r rhan fwyaf o raglenni dysgu teuluol yn gosod targedau dysgu ar gyfer y plant ac yn trafod y rhain yn rheolaidd gydag athrawon dosbarth. Mae rhaglenni'n bodloni anghenion plant unigol yn dda.

Cynnydd

- 14 Ar gyrsiau hwy sy'n para dros 12 awr i gyd, mae athrawon yn defnyddio ystod briodol o offer asesu cychwynnol i sefydlu anghenion unigol y dysgwyr. Maent hefyd yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn effeithiol i fonitro ac olrhain pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni ac yn symud ymlaen i ddysgu pellach.
- 15 Mae gorddibyniaeth ar hunanasesu anffurfiol ar gyrsiau byr yn golygu bod anghenion medrau yn aml yn cael eu nodi'n anghywir gan ddysgwyr pan fyddant yn dechrau ac nid oes gan athrawon fan cychwyn cywir ar gyfer olrhain cynnydd.
- 16 Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau hir a lleiafrif ar gyrsiau byr gyfleoedd da i ddilyn amrywiaeth o gymwysterau wedi'u seilio ar gredydau.
- 17 Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n casglu data ar ddilyniant er bod gan rai ohonynt

ddata yn dangos dilyniant dysgwyr i gyrsiau mewn colegau addysg bellach neu i rolau cymorth mewn ysgolion.

- 18 Ni chaiff data cyrhaeddiad cymwysterau ei gasglu'n genedlaethol i greu meincnodau i fesur safonau. Mae hyn yn golygu na all darparwyr gymharu eu deilliannau â meincnodau cenedlaethol.
- 19 Mae dulliau o olrhain cynnydd plant ac arfarnu effaith rhaglenni teuluol ar y plant sy'n cymryd rhan yn anghyson ac nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o fesurau meintiol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dibynnu ar eu mesurau cynnydd eu hunain fel asesiadau oedran darllen. Nid ydynt yn cymharu cynnydd plant ar y rhaglen â'r rhai nad ydynt ar y rhaglen. Mae gormod o ddarparwyr yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd ac yn canolbwyntio gormod ar y deilliannau ysgafnach.
- 20 Ychydig iawn o ysgolion a rhaglenni teuluol sy'n olrhain effaith y rhaglenni teuluol ar y safonau a gyflawnir gan blant yn y tymor hwy.

Monitro ansawdd ac effaith y rhaglenni:

- 21 Mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr dysgu teuluol yn cwblhau adroddiadau hunanasesu arfarnol wedi'u seilio ar holiaduron cyfranogwyr, asesiadau athrawon, arfarniadau penaethiaid a thafleuni adborth cyrsiau. Maent yn defnyddio hunanarfarnu i lywio cynllunio gweithredol ac yn darparu adroddiadau defnyddiol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion a rhanddeiliaid hefyd.
- 22 Caiff arfer dda ei nodi a'i lledaenu'n dda trwy rwydweithiau a chyfarfodydd staff.
- 23 Mae llawer o awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar adroddiadau cydlynwyr heb goladu'r adroddiadau a'r data ar ddeilliannau dysgwyr i lywio cynllunio strategol yng nghynlluniau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI).
- 24 Gan nad oes data ar gael ar gyflawniad dysgwyr ar lefel genedlaethol, mae'n anodd barnu'r cynnydd cyffredinol o ran gwerth am arian. Fodd bynnag, mae cynlluniau dysgu unigol yn y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn dangos bod dysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau hir yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer ohonynt yn ennill tystysgrif ddefnyddiol sy'n eu helpu i symud i gyflogaeth neu ar gyrsiau eraill.

Teitl: Pa mor dda y caiff Setiau Data Craidd Cymru Gyfan eu defnyddio i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella? – Mehefin 2012

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 ddefnyddio'r setiau data craidd i herio eu hunain i wneud cystal â'r arfer orau a nodwyd mewn ysgolion tebyg eraill, yn cynnwys y rhai yn eu teulu o ysgolion;
- A2 gwneud defnydd mwy effeithiol o siartiau 'perfformiad disgwylidiedig wedi'i fodelu';
- A3 dadansoddi perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fwy trylwyr a seilio strategaethau gwella ar y canfyddiadau; a
- A4 gwneud yn siŵr bod llywodraethwyr yn deall data perfformiad yr ysgol yn llawn, yn cynnwys ei safle yn y teulu a'r chwarteri meincnodau prydau ysgol am ddim, a bod ganddynt rôl mewn hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Dylai awdurdodau lleol:

- A5 sicrhau bod y wybodaeth am berfformiad a'r dadansoddiadau y maent yn eu rhoi i ysgolion yn ychwanegu at y setiau data craidd, ac nid yn eu dyblygu; a
- A6 hyfforddi arweinwyr a llywodraethwyr ysgol i ddadansoddi'r setiau data craidd yn well a defnyddio'r canfyddiadau i nodi'r hyn y mae angen ei wella.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A7 ystyried cynnwys data ar y pynciau nad ydynt yn rhai craidd yn setiau data cyfnod allweddol 4.

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae defnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ('y setiau data craidd') yn cyfrannu at hunanarfarnu gwell ac yn galluogi cydweithredu gwell rhwng ysgolion, yn enwedig y rhai yn y teuluoedd² o ysgolion. Mae ysgolion yn cysylltu'n gynyddol ag ysgolion sy'n perfformio'n uwch yn eu teulu i drafod strategaethau ar gyfer gwella a rhannu arfer orau.

² Rhoddir esboniad o'r modd y caiff teuluoedd o ysgolion eu creu ym mharagraff 13 yn yr adran Cefndir yn yr adroddiad llawn.

- 2 Caiff yr ystod o ddangosyddion, dadansoddiadau newydd, graffiau a siartiau a gynhwysir yn y setiau data craidd eu defnyddio gan y rhan fwyaf o ysgolion i arfarnu eu perfformiad a nodi meysydd i'w gwella. Mae dadansoddiadau newydd o ddata perfformiad, nad oeddent ar gael i bob ysgol yng Nghymru yn y gorffennol, yn cynnwys cymariaethau ag ysgolion tebyg i ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, a thargedau cyrhaeddiad ar wahân ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg mamiaith yng nghyfnodau allweddol 1 i 3.
- 3 Fodd bynnag, nid yw tua un o bob pum ysgol yn defnyddio'r setiau data craidd yn ddigon da i nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wella. Yn rhy aml, mae'r ysgolion hyn yn defnyddio data i gyfiawnhau'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, yn hytrach na herio'u hunain i wneud yn well. Nid yw rhai ysgolion uwchradd yn gwneud defnydd effeithiol o'r siartiau 'perfformiad disgwylidiedig wedi'i fodelu', sydd wedi'u seilio ar y gydberthynas rhwng perfformiad ysgol a data prydau ysgol am ddim, fel y maent wedi'u cynnwys yn y setiau data craidd.
- 4 Caiff y setiau data craidd eu defnyddio gan lawer o lywodraethwyr i gyflawni eu rôl o ddwyn arweinwyr ysgol i gyfrif hefyd. Pan gaiff llywodraethwyr eu hysbysu'n dda am berfformiad cymharol eu hysgol, maent yn fwy tebygol o gynnig her a chymorth effeithiol i arweinwyr ysgol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o lywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o'r wybodaeth y mae'r setiau data craidd yn ei darparu am berfformiad ysgolion, a phrin y maent yn cymryd rhan o gwbl ym mhrosesau hunanarfarnu eu hysgol.
- 5 Ers cyflwyno'r setiau data craidd, mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi addasu'r wybodaeth am berfformiad ychwanegol y maent yn ei darparu ar gyfer ysgolion. Mae'r rhai mwyafrif buddiol o'r rhain yn ychwanegu at y dadansoddiadau o'r setiau data craidd yn hytrach na'u hailadrodd. Mae swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r dadansoddiadau hyn yn gynyddol i herio ysgolion i wella eu perfformiad, er bod llai o gysondeb yn y modd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio dadansoddiadau ychwanegol.
- 6 Pan nodwyd bod tanberfformio, mae ysgolion yn defnyddio ystod o strategaethau ar gyfer gwella. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys cymorth targedig i grwpiau o ddisgyblion, diwygio cynnwys neu drefniadaeth y cwricwlwm, a gofyn am arweiniad gan y teulu o ysgolion. Yn gyffredinol, mae'r strategaethau hyn wedi cael effaith dda, gyda thystiolaeth o welliant flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- 7 Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn dadansoddi'r setiau data craidd yn ddigon trylwyr i arfarnu perfformiad pob grŵp o ddisgyblion, yn enwedig disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, nid oes digon o ysgolion yn cymryd camau penodol i wella safonau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.
- 8 Mae defnyddio'r setiau data craidd yn cael effaith gynyddol ar ddysgu proffesiynol athrawon lle mae teuluoedd o ysgolion yn nodi a rhannu arfer dda. Ledled Cymru, mae teuluoedd o ysgolion yn datblygu strategaethau newydd i ysgogi gwelliannau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cynnal cynadleddau ar gyfer holl ysgolion y teulu, sefydlu cyfathrebu electronig ar gyfer rhwydwaith teuluol a phenodi cydlynedd teuluol rhan-amser.

Teitl: Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 – Mehefin 2012

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 roi blaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd mewn cynlluniau gwella a chynlluniau gwaith;
- A2 olrhain a monitro cynnydd pob disgybl, yn enwedig y rhai ar raglenni ymyrraeth a dysgwyr mwy abl, i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud cynnydd da ar draws pob cyfnod allweddol;
- A3 amlinellu cyfleoedd ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, yn enwedig o ran gwella ysgrifennu estynedig disgyblion a chywirdeb eu gwaith ysgrifenedig;
- A4 monitro ac arfarnu effaith y strategaethau ar gyfer gwella llythrennedd; a
- A5 hyfforddi athrawon i gynllunio mwy o gyfleoedd heriol ym mhob pwnc i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch disgyblion.

Dylai awdurdodau lleol:

- A6 lunio strategaeth llythrennedd ddatblygedig a mecanweithiau i wella safonau ar draws y cwricwlwm; a
- A7 chefnogi ysgolion wrth hyfforddi pob aelod o staff i ddefnyddio strategaethau llythrennedd effeithiol, yn cynnwys rhannu arfer orau rhwng ysgolion.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A8 roi arweiniad a chymorth i athrawon i'w helpu i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith a datblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Prif ganfyddiadau

- 1 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres sy'n edrych ar safonau mewn llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 a'r modd y mae ysgolion yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Bydd adroddiadau diweddarach yn canolbwyntio ar roi'r Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol ar waith, a'i heffaith, trwy ailedrych ar yr un sampl o ysgolion uwchradd.

Yn genedlaethol

- 2 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a arolygwyd o Fedi 2010, mae disgyblion yn

gwrando'n dda mewn gwersi ac yn ymateb yn rhwydd i gwestiynau ar lafar, ond mae eu hatebion yn rhy fyr ac arwynebol mewn tua un o bob deg ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda dealltwriaeth, ac yn dyfynnu a dehongli gwybodaeth yn dda. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, mae medrau darllen lleiafrif o ddisgyblion yn gyfyngedig, ac mae hyn yn effeithio ar eu cynnydd. Yn aml, yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion mwy abl yn aml yn cael digon o gyfleoedd i ddadansoddi testunau darllen cymhleth.

- 3 Mewn tua thri chwarter o ysgolion uwchradd a arolygwyd o Fedi 2010, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir at ystod briodol o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mewn tua chwarter o ysgolion, nid yw safonau ysgrifennu disgyblion cystal â'u darllen neu'u llafaredd. Yn yr achosion hyn, nid yw disgyblion yn cynhyrchu digon o ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm ac maent yn gwneud camgymeriadau sylfaenol mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.
- 4 Mae tua 40% o ddysgwyr yn dechrau ysgolion uwchradd ym Mlwyddyn 7 gydag oedrannau darllen gryn dipyn islaw eu hoedran cronolegol (o leiaf chwe mis). Nid yw tua 20% o'r dysgwyr hyn yn llythrennog weithredol, ac mae eu hoedrannau darllen islaw naw mlwydd a hanner.
- 5 Mae asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a'r profion oedran darllen yn mesur cynnydd yn wahanol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gwneud cymariaethau rhwng oedrannau darllen a medrau darllen disgyblion. Hyd nes cyflwyno prawf darllen cenedlaethol yn 2013, ni fydd gan Gymru ddata trylwyr, cymaradwy ar lefelau llythrennedd dysgwyr. Ar hyn o bryd, mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio profion gwahanol ac yn mesur lefelau llythrennedd mewn ffyrdd gwahanol.
- 6 Mae canran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a gyflawnodd lefel ddisgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef lefel 5 neu'n uwch, mewn Saesneg yn 2011 yn parhau â'r gwelliant cyson o flynyddoedd blaenorol. Roedd gwelliant tebyg yng nghanran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg mamiaith. Yn 2011, Cymraeg mamiaith yw'r pwnc craidd sy'n perfformio orau ar lefel 5. Fodd bynnag, ar holl lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae perfformiad mewn Saesneg yn is na pherfformiad mewn pynciau craidd eraill.
- 7 Yn yr un modd â chyfnodau allweddol eraill, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar lefelau disgwyliedig ac uwch y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Yng nghyfnod allweddol 3, mae dros 13 pwynt canran o wahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig.
- 8 Mae nifer gynyddol o ysgolion uwchradd yn cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ennill cymwysterau cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru yng nghyfnod allweddol 3. Ar hyn o bryd, mewn un o bob chwe ysgol, mae llawer o ddysgwyr ym Mlwyddyn 8 a Blwyddyn 9 yn cyflawni lefel 1 mewn cyfathrebu. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae disgyblion ym Mlwyddyn 9 yn ennill cymwysterau cyfathrebu lefel 2. Fodd bynnag, nid yw ennill y cymwysterau hyn o reidrwydd yn golygu bod disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm. Yn yr arfer orau, mae rhai ysgolion yn sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddangos y medrau hyn ar draws pob pwnc trwy addysgu medrus.

Yn yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt

- 9 Mae lleiafrif o ysgolion wedi cynnal archwiliad o fedrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm i weld a yw pynciau'n nodi ac yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn. Mewn rhai ysgolion sydd wedi cynnal archwiliadau, rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd mewn cynlluniau datblygu a chynlluniau gwaith pynciau. Pan fydd ysgolion wedi datblygu hyfforddiant ysgol gyfan ar strategaethau llythrennedd penodol, mae cynlluniau gwaith ar draws y cwricwlwm yn fwy cyson o ran amlygu'r union fedrau darllen, ysgrifennu a llafaredd fydd yn cael eu haddysgu. Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw cynlluniau gwaith pynciau'n cynnwys digon o fanylder am y modd y caiff medrau llythrennedd eu haddysgu.
- 10 Mae gan lawer o ysgolion weithdrefnau diffiniedig ar gyfer asesu galluoedd darllen disgyblion, a threfniadau i gefnogi'r rhai y mae eu hoedrannau darllen gryn dipyn islaw eu hoedran cronolegol. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cofnodi canran y disgyblion ar raglenni ymyrraeth llythrennedd sy'n cyflawni lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. O'r ysgolion hyn, ar gyfartaledd, mae 37% o'r disgyblion hyn yn mynd ymlaen i gyflawni lefel 5.
- 11 Mae mwy o ysgolion yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i olrhain data oedran darllen a sillafu disgyblion cyfnod allweddol 3 er mwyn monitro eu cynnydd. Fodd bynnag, prin yw'r ysgolion sy'n monitro cynnydd disgyblion y mae eu hoedrannau darllen islaw eu hoedran cronolegol i wirio a ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau llythrennedd ymhellach.
- 12 Mae llawer o ysgolion wedi ymateb yn dda i'r pwyslais cynyddol ar fedrau yng Ngorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol ac maent yn defnyddio dulliau ysgol gyfan ar gyfer addysgu darllen, ysgrifennu a llafaredd yn brif ffocws ar gyfer hyfforddi.
- 13 Mae cydlynwyr llythrennedd sy'n gyfrifol am gydlynu dulliau ysgol gyfan ac uwch arweinydd sy'n gyfrifol am lythrennedd ar lefel strategol ym mhob ysgol y gwnaed arolwg ohoni. Dim ond yn ddiweddar y mae lleiafrif o'r cydlynwyr hyn wedi ymgymryd â'u rôl, ac mae'n rhy gynnar i farnu effaith eu harweinyddiaeth ar wella safonau.
- 14 Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol gyda ffocws ar lythrennedd ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ond mae'n rhy gynnar i farnu eu heffeithiolrwydd. Mae rhai ysgolion yn datblygu dull graddol o wella llythrennedd trwy hyfforddi athrawon mewn strategaethau llythrennedd fel rhan o gynllun tair blynedd. Yn yr ysgolion hyn, mae gweithgorau, mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr awdurdodau lleol neu ymgynghorwyr annibynnol, wedi arwain at hyfforddiant ysgol gyfan defnyddiol ar gyfer staff mewn darllen, ysgrifennu a llafaredd yn y flwyddyn ddiwethaf.
- 15 Mae gwella llythrennedd yn brif flaenoriaeth mewn llawer o gynlluniau datblygu ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, nid yw cynlluniau datblygu yn cynnwys amcanion ar gyfer gwella safonau llythrennedd ar draws yr ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion yn unig y mae ffocws clir ar lythrennedd mewn gweithdrefnau monitro ac arfarnu.

Teitl: Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd – Mehefin 2012

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 adeiladu ar y trefniadau pontio presennol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i ddarparu parhad a dilyniant gwell yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus;
- A2 gwella'r defnydd o ddata ac asesu i nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r holl staff a'r rhieni perthnasol;
- A3 darparu cyfleoedd cyfoethog a darpariaeth sy'n cynnig her briodol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion mwy abl a dawnus gyflawni'r safonau uchaf;
- A4 sicrhau bod disgyblion mwy abl a dawnus o gefndiroedd difreintiedig yn cael cymorth penodol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu;
- A5 darparu mentora ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus i'w helpu i wneud y dewisiadau gorau o ran gweithgareddau allgyrsiol, opsiynau a gyrfa;
- A6 hyfforddi arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth ar sut i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus a defnyddio rhwydweithiau o arfer broffesiynol i rannu arfer orau; a
- A7 gwella dealltwriaeth rhieni o'r modd y gallant gefnogi addysg eu plentyn mwy abl neu ddawnus yn well.

Dylai awdurdodau lleol:

- A8 hyfforddi swyddogion gwella ysgolion ar sut i nodi, cefnogi, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus; a
- A9 defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu tueddiadau dros gyfnod yng nghyflawniad disgyblion mwy abl a dawnus.

Prif ganfyddiadau

Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus

- 1 Nid yw disgyblion mwy abl a dawnus yng Nghymru yn cyflawni cystal â disgyblion mwy abl a dawnus yn Lloegr. Nid oes digon o ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgywlyedig am eu hoedran (lefel 5) mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ym mhynciau craidd Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, nid oes digon o ddisgyblion 16 oed yn cyflawni graddau uwch A/A* yn y pynciau craidd.

- 2 Mae adroddiadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer 2007 a 2010, sy'n asesu perfformiad myfyrwyr yn 15 oed mewn ysgolion ar draws mwy na 50 o wledydd yr OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd), yn awgrymu mai prin yw'r rhai sy'n cyflawni'n uchel yng Nghymru o gymharu â'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd.
- 3 Yn y nifer fach o ysgolion lle mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni eu llawn botensial, mae'r strategaethau addysgu a dysgu da neu ragorol a fabwysiadwyd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn cael effaith gadarnhaol ar wella canlyniadau arholiadau. Yn yr ysgolion prin hyn, caiff pob grŵp o ddisgyblion ei herio'n briodol ar draws y cwricwlwm yn aml.

Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus

- 4 Yn yr ysgolion prin sydd â'r ddarpariaeth orau, caiff disgyblion mwy abl a dawnus eu nodi, eu cefnogi a'u herio'n briodol ac maent yn cyflawni safonau uchel. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio cyfuniad o asesiadau athrawon, profion safonol, arsylwi a holiaduron rhieni a disgyblion i nodi cryfderau a doniau penodol disgyblion, a rhennir y wybodaeth hon gyda phob un o'r staff. Caiff disgyblion eu cefnogi'n dda trwy ystod o ddarpariaeth ychwanegol, ac fe gaiff eu cynnydd ei olrhain a'i fonitro'n ofalus ar draws pob cyfnod allweddol. Mae dulliau cyson, ysgol gyfan ar gyfer addysgu a dysgu. Mae cydlynnydd 'mwy abl a dawnus' yn goruchwylio gweithredu'r polisi a'r arfer ac mae'n monitro'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Caiff rhieni eu cynnwys yn llawn hefyd. Mae rhai ysgolion wedi sefydlu gweithgorau 'mwy abl a dawnus', grwpiau arweinyddiaeth neu grwpiau ffocws i gefnogi disgyblion mwy abl a dawnus a chynig hyfforddiant ysgol gyfan i staff.
- 5 Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, ni chaiff disgyblion mwy abl a dawnus eu nodi na'u herio'n ddigon da, ac nid ydynt yn cael cymorth priodol bob amser. Nid yw prosesau nodi, olrhain a monitro yn gadarn yn yr ysgolion hyn, a phrin yw'r hyfforddiant i staff ar sut i weithio gyda disgyblion mwy abl a dawnus.
- 6 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa ar gwricwlwm sy'n hyrwyddo:
 - dulliau unigol neu bersonol o ddysgu;
 - trefnu bod athrawon arbenigol ar gael;
 - rheolaeth dros sut a beth y maent yn ei ddysgu; a
 - sesiynau mentora i'w cefnogi i wneud dewisiadau ynghylch opsiynau a gyrfa.
- 7 Nid yw trefniadau pontio rhwng y mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu digon o barhad a dilyniant yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus. Er enghraifft, dim ond ychydig o ysgolion uwchradd sy'n gofyn i athrawon mewn ysgolion cynradd nodi dysgwyr mwy abl a dawnus ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 gan ddefnyddio meini prawf cytûn. Pan mae ansawdd y pontio rhwng ysgolion yn dda, caiff hyn effaith sylweddol ar gyflawniad hirdymor disgyblion mwy abl a dawnus.
- 8 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa'n sylweddol ar ddarpariaeth ychwanegol sydd wedi'i hanelu'n benodol at ddatblygu eu galluoedd a'u doniau ac yn cynnig cyfleoedd i weithio gyda disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion eraill. O'i chyfyngu i'r ddarpariaeth mewn un ysgol yn unig, gallai ansawdd y cymorth ac ehangder y cyfleoedd ychwanegol ddibynnu'n ormodol ar fedrau a gwybodaeth arbenigol athrawon a thiworiaid ac adnoddau yn yr ysgol honno.

- 9 Mewn ychydig iawn yn unig o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt y caiff disgyblion o gefndiroedd difreintiedig gymorth penodol i oresgyn rhwystrau rhag eu dysgu fel dyhead isel neu gyfle cyfyngedig i fanteisio ar gyfleoedd allgyrsiol.
- 10 Mae cyfathrebu effeithiol gyda rhieni yn ffactor allweddol yn yr ysgolion prin lle caiff disgyblion mwy abl eu herio'n llwyddiannus i gyrraedd safonau uchel. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif sylweddol o ysgolion yn rhoi gwybod i rieni'n rheolaidd bod eu plant wedi cael eu nodi'n blant sy'n fwy abl a dawnus.

Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

- 11 Mae gormod o amrywiad yn y cymorth a'r her y mae awdurdodau lleol yn eu rhoi i ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r cymorth a'r her yn rhy ddibynnol ar fedrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y swyddog sy'n gyfrifol am ddatblygu'r ddarpariaeth i ddysgwyr mwy abl a dawnus ym mhob awdurdod a'r amser a neilltuir ar gyfer y gwaith hwn.
- 12 Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae ysgolion uwchradd o dan eu harweinyddiaeth wedi sefydlu rhwydweithiau o arfer broffesiynol sy'n canolbwyntio ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Dim ond ychydig o awdurdodau lleol sy'n mynd ati i hyrwyddo rhannu arfer orau rhwng ysgolion.
- 13 Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r data sydd ar gael i fonitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus. Anaml y mae swyddogion gwella ysgolion yn cael trafodaeth fanwl am y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus fel grŵp o ddisgyblion yn ystod eu hymweliadau ag ysgolion.

Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru

- 14 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, ynghyd â ffrydiau ariannu cysylltiedig, wedi arwain at raddau amrywiol o welliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Ers cyhoeddi 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog' (Llywodraeth Cymru/y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, 2008), mae mwy o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu addysg disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r arweiniad a'r safonau ansawdd yn cynnig ffordd ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol archwilio a gwella eu darpariaeth.
- 15 Mae Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE) yn darparu cymorth effeithiol trwy gynadleddau a hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau lleol wedi manteisio'n llawn ar yr hyfforddiant hwn ac nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn ymwybodol o'r arweiniad sydd ar gael. Mae hyn yn golygu nad ydynt wedi ymateb mor effeithiol ag y gallent i strategaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru, ac nid ydynt wedi gwneud digon o gynnydd wrth wella darpariaeth a gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl a dawnus.
- 16 Mae bron pob ysgol lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn dda yn defnyddio safonau ansawdd Llywodraeth Cymru/NACE yn effeithiol i gefnogi eu gwaith, fel arfer trwy eu defnyddio fel offeryn archwilio neu hunanasesu. Dim ond ychydig iawn o ysgolion uwchradd sy'n defnyddio'r safonau ansawdd i baratoi ar gyfer Dyfarniad Her NACE.

Teitl: Darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd – Canllaw arfer dda – Gorffennaf 2012

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 ystyried adolygu strwythur Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, i adeiladu ar ei gryfderau a dileu ei wendidau;
- A2 gweithio gydag ysgolion a CBAC i gynllunio sut i gyflwyno graddio i asesu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru; ac
- A3 adolygu'r trefniadau ar gyfer asesu cymwysterau medrau hanfodol.

Dylai cyrff dyfarnu:

- A4 ddarparu arweiniad a deunyddiau enghreifftiol pellach i gefnogi ysgolion wrth gyflwyno ac asesu medrau hanfodol; a
- A5 datblygu gwefan Bagloriaeth Cymru i gynnwys ystod ehangach o adnoddau cymeradwy, gan gynnwys adnoddau cyfrwng Cymraeg.

Dylai ysgolion uwchradd:

- A6 monitro'n agosach y trefniadau ar gyfer cyflwyno ac asesu medrau hanfodol fel nad ydynt yn or-fiwrocraidd;
- A7 monitro ansawdd dysgu ac addysgu ym Magloriaeth Cymru fel rhan o'u gweithdrefnau hunanarfarnu arferol, gyda ffocws penodol ar gynnydd a safonau myfyrwyr; a
- A8 chasglu a defnyddio arfarniadau myfyrwyr o'u profiadau o Bagloriaeth Cymru i wella'r ddarpariaeth.

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae Bagloriaeth Cymru yn cynnig llawer o fanteision i fyfyrwyr. Trwy astudio craidd Bagloriaeth Cymru, mae mwyafrif y myfyrwyr yn gwella'u medrau hanfodol ac maent yn ennill dealltwriaeth o ystod o bynciau, gan gynnwys menter, gwleidyddiaeth a materion cyfoes, na fyddent wedi eu hastudio fel arall. Yn benodol, mae cyflawni'r ymchwiliad unigol yn helpu llawer o fyfyrwyr i ddatblygu rhai o'r medrau ymchwil a dadansoddi y mae eu hangen ar gyfer addysg uwch a gwaith. Hefyd, mae myfyrwyr yn datblygu eu hyder a'u medrau cymdeithasol trwy gymryd rhan mewn cyfranogi yn y gymuned a phrofiad gwaith.
- 2 Fodd bynnag, mae'r safonau a gyflawnir ym Magloriaeth Cymru yn amrywio llawer iawn rhwng myfyrwyr a rhwng ysgolion. Er enghraifft, mae safonau mewn ymchwiliadau unigol yn gallu amrywio o basio ar lefel 3 i lefel uchel iawn. Mae llawer

o'r amrywiaeth mewn safonau yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y ffordd y mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio a'i chyflwyno mewn ysgolion gwahanol. Hefyd, mae'n adlewyrchu ystod gallu eang y myfyrwyr sy'n dilyn y craidd ar lefel 3.

- 3 Mae myfyrwyr sy'n ennill y cymhwyster yn ennill cymwysterau mewn ystod o fedrau hanfodol fel cyfathrebu a chymhwyso rhif hefyd, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hastudio ar lefel sy'n briodol i fyfyrwyr unigol. O'r holl elfennau yn y craidd, mae'r safonau isaf yn y modiwl iaith 20 awr, nad yw'n ddigon heriol yn gyffredinol i ennyn diddordeb myfyrwyr, yn enwedig y rhai mwy galluog.
- 4 Mae'r ystod eang o safonau sy'n cael eu cyflawni yng nghraidd Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 yn awgrymu y byddai graddio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn adlewyrchu ystod deilliannau myfyrwyr yn decach.
- 5 Mae amrywiaeth yn ansawdd y ddarpariaeth hefyd. Mewn llawer o ysgolion, mae anghydbwysedd rhwng yr amser sy'n cael ei dreulio'n cwblhau'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â chymwysterau medrau hanfodol a'r amser sy'n cael ei dreulio'n gwella medrau go iawn myfyrwyr a throsglwyddo'r rhain i ategu dysgu ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn y craidd yn dda yn gyffredinol ym mwyafrif yr ysgolion. Mewn lleiafrif o sesiynau addysgu, nid yw myfyrwyr yn cael eu herio digon gan nad yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion holl ystod gallu myfyrwyr.
- 6 Mae'r cymorth mentora a thiworial sy'n cael ei gynnig gan lawer o ysgolion yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a chyflawniad myfyrwyr, nid yn unig yng nghraidd Bagloriaeth Cymru ond hefyd ar draws pob pwnc sy'n cael ei astudio fel opsiwn. Mae gan leiafrif o ysgolion system hylaw ar gyfer olrhain a monitro profiadau a chynnydd myfyrwyr. Mae bron pob ysgol yn casglu gwybodaeth am gwblhad elfennau amrywiol Bagloriaeth Cymru er, gan amlaf, dim ond y cydlynedd neu'r gweinyddwr sy'n gallu cael at y wybodaeth hon. Mae ychydig ysgolion yn rhannu'r wybodaeth hon gydag athrawon, anogwyr dysgu, rhieni neu fyfyrwyr ac maent yn ei defnyddio i olrhain tanberfformio ac i roi cymorth ychwanegol lle bo'r angen.
- 7 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio'n helaeth i gynnig ystod eang a diddorol o weithgareddau ym Magloriaeth Cymru. Mewn ambell enghraifft yn unig nid yw'r gweithgareddau'n ennyn diddordeb myfyrwyr. Mae lleiafrif o ysgolion yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol, i ategu addysgu a dysgu.
- 8 Mae Bagloriaeth Cymru yn fwyaf llwyddiannus lle caiff ei chynllunio fel rhan orfodol o'r cwricwlwm i bob myfyriwr. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn neilltuo digon o amser y cwricwlwm i gyflwyno'r craidd, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn 12 er mwyn rhoi mwy o amser i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu hopsiynau lefel 3 eraill ym mlwyddyn 13.
- 9 Mae bron pob ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gydag ystod o fudiadau i gefnogi Bagloriaeth Cymru. Mae'r cysylltiadau y maent yn eu sefydlu gyda busnesau lleol ac elusennau yn ddefnyddiol ar gyfer hwyluso cyflwyno 'menter' a phrofiad gwaith a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gydag eraill a chael profiadau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

- 10 Er bod gan lawer o ysgolion brosesau hunanarfarnu sefydledig, mae Bagloriaeth Cymru yn aml yn sefyll y tu allan i'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd hyn. Mae hyn yn golygu nad yw arweinwyr ysgol yn gwybod digon am ansawdd yr addysgu yn rhaglen Bagloriaeth Cymru nac yn gwybod faint o gynnydd y mae myfyrwyr yn ei wneud yn ystod gwersi.
- 11 Mae llawer o fyfyrwyr yn gadarnhaol ynghylch eu profiadau o Bagloriaeth Cymru, yn enwedig y profiadau sy'n gysylltiedig â menter, ond dywedant hefyd fod gormod o waith papur i'w gwblhau ac nad oes digon o ddatblygu medrau. Nid oes gan fyfyrwyr ddigon o gyfraniad at weithdrefnau hunanarfarnu. Er bod lleiafrif o ysgolion yn gwrando ar farn myfyrwyr ac wedi'u cynnwys mewn rhai gweithgareddau hunanarfarnu, ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw barn myfyrwyr yn cael ei defnyddio i wella'r rhaglen.
- 12 CBAC yw prif ffynhonnell hyfforddiant, cyngor a chymorth i staff mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru. Mae'r hyfforddiant hwn wedi bod yn effeithiol ac mae wedi cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r cymorth gan gyrrff dyfarnu eraill sy'n gyfrifol am gymwysterau medrau hanfodol wedi bod yn llai effeithiol. Nid yw mwyafrif yr ysgolion wedi cael digon o arweiniad ar y cymwysterau medrau hanfodol newydd nac enghreifftiau o arfer dda.
- 13 Mae gan lawer o ysgolion adnoddau digonol i ategu rhaglen Bagloriaeth Cymru yn yr ysgol. Mae ystod y deunyddiau cyfrwng Cymraeg wedi gwella, ond mae prinder cyffredinol o adnoddau Cymraeg, yn enwedig ar gyfer modiwlau addysg bersonol a chymdeithasol. Lle bo adnoddau Cymraeg yn bodoli, nid yw ysgolion bob amser yn gwybod sut i gael gafael arnynt.
- 14 Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnig rhaglen Bagloriaeth Cymru lefel 3 o ansawdd uchel iawn. Mae eu rhaglen yn amrywiol ac mae'n rhoi pwyslais cryf ar yr ymchwiliad unigol a'r profiad gwaith fel dull o ddatblygu'r medrau y mae eu hangen ar gyfer addysg uwch a gwaith. Yn yr ysgolion hyn, gwrandewir ar farn myfyrwyr ac maent yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau. Mae'r ysgolion hyn o blaid graddio'r cymhwyster ac mae rhai ohonynt wedi dechrau datblygu eu darpariaeth y tu hwnt i ofynion presennol y corff dyfarnu.